

HUGHES, THOMAS HYWEL (1875 - 1945), gweinidog gyda'r Annibynwyr, ysgolhaig, diwinydd, ac athronydd

Enw: Thomas Hywel Hughes
Dyddiad geni: 1875
Dyddiad marw: 1945
Priod: Nina Hughes (née Owen)
Rhiant: Ann Hughes
Rhiant: Daniel Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, ysgolhaig, diwinydd, ac athronydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: John Daniel Vernon Lewis

Ganwyd 10 Gorffennaf 1875 ym Mhen-clawdd, mab Daniel ac Ann Hughes. Yn ôl y Parch. W. Glasnant Jones, Abertawe, bu'n gweithio am ysbaid fel crydd yn Nhre-g yr cyn mynd i ysgol y Gwynfryn, Rhydaman. Addysgwyd ef yn New College a Phrifysgol Llundain lle y graddiodd yn B.A. (anrhyd. dosb. 1af mewn Athroniaeth), a B.D. (anrhyd. dosb. 1af mewn Diwinyddiaeth Feiblaidd).

Urddwyd ef yn Gunnersbury yn 1904 a bu yno hyd 1911. Symudodd i Bishop's Stortford (1911-22) lle'r ysgrifennodd ei draethawd ar ' Athroniaeth Plotinus ' a ddug iddo radd D.Litt. ym Mhrifysgol Llundain. Yn 1922 penodwyd ef yn brifathro coleg yr Annibynwyr, Caeredin, ac yno y llafuriodd hyd 1937 yn fawr ei glod a'i lwyddiant.

Enillodd radd D.D. (Llun.) am draethawd ar ' The Hebraic and Hellenic idea of God ', a chydnabuwyd drachefn ei lafur a'i wasanaeth â D.D., er anrhydedd, gan Brifysgol Caeredin. Efoedd yr athro mewn Diwinyddiaeth Feiblaidd a Chyfundrefnol ac Athroniaeth Crefydd yno. Gwasanaethodd fel darlithydd yn y ' Post-graduate School of Divinity ' (Prifysgol Caeredin), ac fel arholwr mewn Diwinyddiaeth (Prifysgol Llundain).

Heblaw cyfrannu ysgrifau i wahanol gylchgronau Saesneg, cyhoeddodd nifer o gyfrolau pwysig a gwerthfawr, megis: - *The New Psychology and Religious Experience*, 1933; *The Psychology of Preaching and Pastoral Work* 1939; *The Philosophic Basis of Mysticism*, 1937; *Psychology and Religious Origins*, 1936; *Psychology and Religious Truth*, 1942; *The Atonement (Modern Theories of the Doctrine)* &c. cyhoeddwyd yr olaf wedi ei farwolaeth.

Gweithiwr mawr, ysgolor gwylaidd, a g r o ddiwylliant ysbrydol dwfn a gysegrodd ei holl ddoniau i amcanion ymarferol y weinidogaeth ydoedd. Wedi ymddeol cartrefodd yn Mount Grange, Penyrheol Drive, Sgeti, Abertawe, lle y daliodd y bregethu hyd at ei farwolaeth yno ar 14 Awst 1945, ychydig ar ôl ei briod Nina (bu farw 1940), merch Daniel Owen. Ni fu iddynt blant.

Awdur

Y Parchedig Athro Emeritus John Daniel Vernon Lewis, (1879 - 1970)

Ffynonellau

The Congregational Year Book, 1946

Blwyddiadur yr Annibynwyr Cymraeg, 1946

Cofnodion Coleg Annibynnol Caeredin

Who's who?

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734466](https://www.wikidata.org/wiki/Q20734466)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

